**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 20 RHAGFYR 2004 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | Y GYLLIDEB DDRAFFT 2005-2006 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod am y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-2006, y rhagolygon ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008, ac mae'r papurau sydd ynghlwm yn rhestru:

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);
(ii) y cyfraniadau am y tro sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol (Atodiad B);
(iii) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sydd angen gan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Drysoryddol (Atodiad C);
(iv) Strategaeth Rheolaeth Drysoryddol a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2004-2005 (Atodiad D).
(v) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiadau E a F);

1.2 Ar ddechrau'r adroddiad hwn, mae'n bwysig tynnu sylw'r Aelodau at nifer o bwyntiau allweddol yn ymwneud â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2005-2006.

(a) Pan oedd y gyllideb ar gyfer 2004-2005 yn cael ei hystyried, cytunwyd gosod y cynnydd yn y gyllideb ar 7.63%, a chafwyd hwn trwy ddefnyddio rhai darpariaethau. Ar ôl cymeradwyo'r gyllideb, cafodd yr Awdurdod £382,382 o Arian Pontio, a daeth hynny â'r cynnydd i lawr i 6.12%. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnydd arfaethedig ar gyfer 2005-2006 sef 5.09% ac, o ran arian parod, byddai'r gyllideb yn 'brin' o ryw £1,496,420.

(b) Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys effeithiau llawn y costau staffio a restrir yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ystod 2004, sy'n cynnwys:

- chwech yn ychwanegol o staff gweinyddol sydd eu hangen gan yr Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol;
- effaith blwyddyn lawn y saith o staff cefnogol mewn Diogelwch Tân Cymunedol a gymeradwywyd yn y Gyllideb ar gyfer 2004-2005.

(c) Er nad oes sylw penodol yn cael ei wneud fel arfer yn Adroddiadau Cyllideb yr Awdurdod Tân ar effaith penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r Setliad Grant Cefnogi Refeniw, y sefyllfa yn 2005-2006 yw y dylid tynnu sylw ato. Mae Llywodraeth Leol yng Ngogledd Cymru wedi gwneud yn wael o'r Setliad ac roedd y cynnydd yn y grant ar

gyfartaledd yn llai na 4%. Felly o ganlyniad, efallai y byddai'r Aelodau'n dymuno ystyried cyllideb yr Awdurdod yn y cyd-destun ehangach hwn.

## 2. Y GYLLIDEB REFENIW

2.1 Cyfrifwyd y gyllideb ddrafft gychwynnol ar gyfer 2005-2006 yn £29.412m – rhyw 9.53% yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2004-2005. Mae'n cymryd ystyriaeth o effaith y dyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol a 3% o ddarpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân o Orffennaf 2005 ymlaen. Mae ffactorau eraill, megis chwyddiant yn gyffredinol, wedi cael eu cynnwys hefyd, felly hefyd faterion penodol megis:

- cost ynni'n cynyddu ar raddfeydd sy'n uwch o lawer na chwyddiant;
- costau darparu adeiladau ychwanegol o ganlyniad i'r Adolygiad Ailstrwythuro Rheolaethol (mae adroddiad ar wahân ar yr agenda);
- cyflenwadau a gwasanaeth ychwanegol i gefnogi Diogelwch Tân Cymunedol i adlewyrchu penderfyniadau'r Awdurdod yn hyn o beth;
- cost o £90k am fapiau Arolwg Ordnans a ddefnyddir gan y Gwasanaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Risg, a oedd am ddim i'r Gwasanaeth Tân o'r blaen.

Mae Atodiad A yn cymharu'r gyllideb gychwynnol ar gyfer 2005-2006 gyda'r gwir wariant ar gyfer 2003-2004, y gyllideb wreiddiol ac alldro ar gyfer 2004-2005 a'r rhagolygon ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008. Mae datganiad y gyllideb yn cael ei ddarparu mewn diwyg sy'n dangos incwm a gwariant yn fanwl ac ar ffurf Gwerth Gorau.

2.2 Oherwydd y sylwadau cynharach am y Setliad Grant Cefnogi Refeniw, gall yr Aelodau ystyried na fyddai 9.53% o gynnydd yn dderbyniol a bod angen ystyried opsiynau i leihau'r cynnydd. Gall yr Aelodau hefyd gadw mewn cof ddisgwyliadau'r llywodraeth o ran moderneiddio, lle bydd disgwyl i arbedion wrthbwyso costau gwelliannau i wasanaeth.

2.3 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r opsiynau i'r Aelodau eu hystyried. Mae sylwadau am bob llinell yn y tabl a'r risgiau posib yn dilyn:

| | **Cyllideb 2004-2005 £26,852,251** | |
|---|---|---|
| | **£** | ***% of 2004-2005*** |
| Y Gyllideb Ddrafft 2005-2006 | 29,412,294 | + 9.53 |
| Darpariaeth Arian Pontio | - 281,202 | - 1.05 |
| Lleihad mewn ffioedd digwyddiadau i Ddiffoddwyr Tân Rhan Amser | - 151,345 | - 0.56 |
| Y Canlyniadau i Wariant Cyfalaf | - 93,760 | - 0.35 |
| | 28,885,987 | + 7.57 |
| Gohirio'r Taliad i'r Ddarpariaeth Bensiynau | - 140,000 | - 0.52 |
| 1% Arbedion Effeithlonrwydd | - 294,123 | - 1.10 |
| | 28,451,864 | + 5.95 |

| | | |
|---|---|---|
| Tanwariant 2004-2005 | - 500,000 | - 1.86 |
| | 27,951,864 | + 4.09 |

2.4 Lluniwyd y tabl ar sail arbedion a addawyd, sy'n bendant yn bosib eu cyflawni ac a ddaw'n rheolaidd; arbedion a ddylai ddod yn rheolaidd ac arbedion sy'n rhai untro. .

(a) Bydd yr aelodau'n cofio bod y Llywodraeth wedi addo darparu arian pontio i wrthbwyso rhai o'r costau sy'n codi o gamau cynnar y moderneiddio. Nid oedd yn glir ar yr adeg hon y llynedd a oedd rhaid ad-dalu hwn ai peidio, felly gwnaed darpariaeth yn rhagolwg 2005-2006 i ad-dalu'r arian. Mae'r Cynulliad bellach wedi penderfynu nad oes raid ad-dalu'r arian, felly gellir tynnu'r ddarpariaeth allan. Nid oes unrhyw risg ynghlwm wrth yr opsiwn yma.

(b) Gwnaed asesiad o gyllideb gyflogau'r Diffoddwyr Tân Rhan Amser yn seiliedig ar brofiadau dros y 3 blynedd diwethaf. Mae yna danwariant arfaethedig yn 2004-2005 (gweler isod yn yr adroddiad), ac awgrymir y gellir tynnu £151,345 o'r gyllideb ar sail cylchol. Ni fydd hyn yn effeithio ar y lefelau staffio presennol, gofynion yr ochr weithredol na thaliadau i staff. Byddai'r risg o ddewis yr opsiwn yma yn isel.

(c) Efallai y byddai'n bosib lleihau'r gost o ran canlyniadau refeniw i'r cyfalaf petai'r derbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf yn 2004-2005. Yn y blynyddoedd a fu, roedd ariannu gwariant cyfalaf yn dibynnu ar gymeradwyaethau credyd yn rheoleiddio benthyca, ond roedd rhaid bob amser i ATGC fod ag adnoddau eraill i ategu Cymeradwyaethau Credyd Sylfaenol ac i ymdrin â chynlluniau lle roedd gwariant yn symud o un flwyddyn ariannol i'r llall. Â'r Côd Benthyca Darbodus mewn lle, mae rhagor o hyblygrwydd ac mae'n haws asesu fforddiadwyedd. Ychydig o risg sy'n gysylltiedig â'r opsiwn yma o ran refeniw, a byddai'r gostyngiad yn ail ddigwydd wrth i'r sylfaen ar gyfer costau ariannu cyfalaf ostwng. Fodd bynnag, mae'r cyfle i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i ategu gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod, yn cael ei golli. Mae'r effaith cyfan gwbl ar y refeniw o ran yr opsiwn yma yn rhagdybio bod derbyniad cyfalaf yn dod oherwydd gwerthu safle York Road.

(d) Mae'r Llywodraeth wedi dechrau ar ymgynghoriad ynghylch bwriadau ar gyfer Cynllun Pensiwn newydd ar gyfer y Diffoddwyr Tân, ac mae rhan o hynny'n ymwneud ag adolygu'r trefniadau ar gyfer ariannu costau ymddeoliadau "arferol". Petai hyn yn cael ei weithredu, byddai'n golygu bod y Cynulliad yn ateb y costau hynny a'r Awdurdod Tân yn talu am ymddeoliadau ar sail afiechyd a dyfarniadau anafiadau. Gallai hyn gael effaith ar y Ddarpariaeth Bensiynau sydd gan yr Awdurdod – sef £1.955m ar hyn o bryd – felly efallai y byddai'n bosib gohirio taliadau pellach i mewn i'r ddarpariaeth. Ystyrir mai isel yw'r risg o weithredu'r opsiwn yma ar hyn o bryd gan fod y fantolen yn y ddarpariaeth yn iach ac mae wastad yn bosib adolygu'r sefyllfa.

(e) Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y Cynulliad, yn ei adroddiadiad "Creu'r Cysylltiadau", wedi gosod amcan i sefydliadau cyhoeddus ddod yn fwy effeithlon o 1% yn fwy flwyddyn ar ôl blwyddyn am y pum mlynedd nesaf.

Mae hyn wedi dilyn yr 'Adroddiad Gershon' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Prydain. Mae hyn yn un o nodweddion y Setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2005-2006, a bydd yn digwydd eto yn y blynyddoedd i ddod, yn ddiamheuaeth. Dylid hefyd ailddweud mai un o nodau moderneiddio oedd creu effaith niwtral ar gyllidebau. Mae swm o £294,123 wedi cael ei gynnwys yn tabl (1% o ddrafft 2005-2006, 1.1% o 2004-2005) nad yw wedi cael ei nodi'n benodol. Argymhellir bod y Panel Gweithredol yn cael y dasg o benderfynu sut y gallai arbedion o'r fath godi ar gyfer 2005-2006 ac o osod y paramedrau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae yna, wrth gwrs, risg canolig yn gysylltiedig â'r opsiwn yma gan nad oes dim byd penodol wedi cael ei nodi hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae proses y Cynllun Risg yn dal i fynd ymlaen a gallai ystyried canlyniad yr ymgynghoriad dynnu sylw at feysydd i'w hystyried. Mae hefyd y posibilrwydd o incwm ychwanegol o godi tâl fel a nodir ym mharagraff 2.6.

(f) Mae'r llinell olaf yn y tabl yn cyfeirio at danwariant yn codi yn 2004/5. Ar hyn o bryd asesir hyn ar tua £670k ond, gan gymryd i ystyriaeth y lefelau posib o weithgarwch ar yr ochr weithredol dros gyfnod y mae disgwyl iddo fod yn aeaf caled, efallai y byddai'n fwy darbodus i ganiatáu tanwariant o ryw £500k.

Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyfer 2004/5 yn digwydd yng nghyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser ac mae'n codi oherwydd:

- llai na'r arfer o weithgarwch ar yr ochr weithredol
- effaith y ffaith fod y cytundeb cyflog yn 2003 yn is ar gyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser na'r disgwyl gwreiddiol.

Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol bod yr arian yng nghyllideb y diffoddwyr tân rhan amser yn seiliedig yn draddodiadol ar lefel llu llawn, yn dilyn pryderon gan Arolygwr Gwasanaethau Tân ei Mawrhydi. Gan fod cael llu llawn wastad wedi bod yn annhebygol, mae'r dull hwn wedi tueddu, yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, i achosi tanwariant. Penderfynodd yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 22ain Mehefin 1998, i ddefnyddio'r tanwariant i ariannu'r ddarpariaeth bensiynau.

Mae risg canolig o ddefnyddio'r tanwariant yng nghyllideb 2005/6, sef nad oes unrhyw warant y bydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd yn parhau i adolygu'r rhan hon o'r gyllideb yng ngoleuni'r gofynion yn y dyfodol ar yr ochr weithredol, a allai arwain at ragor o gyfleoedd i gyllidebu ar lefel fwy realistig mewn blynyddoedd i ddod.

2.5 Mae'r pwyntiau a amlinellir uchod yn arwain at gynnydd o 4.09% yn y gyllideb. Nid ydynt fodd bynnag yn hollgynhwysfawr ac efallai y byddai'r Aelodau'n dymuno cymryd rhagor o gamau i ostwng y cynnydd arfaethedig ar gyfer 2005-2006. Fel canllaw, byddai swm o £134,261 yn creu 0.5% o arbediad.

2.6 Er nad yw'n benodol yn rhan o'r ystyriaethau ar gyfer cyllideb 2005-2006, efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno nodi bod Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn cynnwys darpariaeth i Awdurdodau Tân allu codi tâl am rai gwasanaethau. Mae'r Cynulliad eto i wneud Gorchymyn ar gyfer Cymru. Efallai y bydd yr Awdurdod felly am gyflwyno sylwadau ffurfiol i'r Cynulliad a CLlLC i gael y ddarpariaeth dan sylw ar waith yng Nghymru cyn gynted ag y bo

modd. Gallai hyn gynhyrchu ffynhonnell incwm i leihau'r cynyddiadau yn y gyllideb.

## 3. GWYBODAETH YCHWANEGOL

3.1 Mae Atodiad B yn rhestru'r cyfraniadau am y tro ar gyfer 2005-2006, tra bod Atodiad C yn rhestru'r dangosyddion darbodus sydd eu hangen o'r Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Drysoryddol. Mae'r Strategaeth Rheolaeth Drysoryddol a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2005-2006 yn Atodiad D.

## 4. RHAGLEN GYFALAF

4.1 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2005-2006 yn Atodiadau E a F, ac mae'n gyfanswm o £2,483,410. Mae'r swm o £1,825,410 ar gyfer cynlluniau newydd ac mae £658,000 ar gyfer cynlluniau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

4.2 Yn 2004-2005, yr alldro amcangyfrifedig ar gyfer gwariant cyfalaf yw £3,432,440. Y bwriad yw ariannu hyn trwy fenthyca. Yn 2004-2005, fel rhan o'r Ailstrwythuro Rheolaethol, mae'r Awdurdod yn bwriadu gwerthu rhai o'r adeiladau sydd ganddo. Y Derbyniadau Cyfalaf a ddisgwylir o werthu'r adeiladau hyn yw £393k. Mae gwerthu asedau yn y blynyddoedd a fu wedi rhoi Derbyniadau Cyfalaf o £32k. Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar ddiwedd 2004-2005 yw £425k, gan gynnwys swm yn deillio'r bwriad arfaethedig o werthu adeilad York Road.

## 5. ARGYMHELLION

Argymhellir:

(i) Bod yr aelodau'n ystyried yr opsiynau ar gyfer cyllideb ddrafft 2005-2006 ac yn penderfynu ar gamau i'w mabwysiadu, gan gymryd ystyriaeth o'r cyngor a'r risgiau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

(ii) Bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael gwybod am y cyfraniadau am y tro sydd eu hangen ar gyfer 2005-2006.

(iii) Bod y Panel Gweithredol yn cael pwerau dirprwyedig i ystyried a chymeradwyo'r ffordd y gellir penderfynu ar yr arbedion effeithiolrwydd o £294,123 a sut i'w gweithredu ar gyfer cyllideb 2005-2006.

(iv) Gwneud sylwadau i CLILC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch gweithredu darpariaethau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ynghylch codi tâl am wasanaethau.

(v) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad C.

(vi) Cymeradwyo'r Strategaeth Rheolaeth Drysoryddol a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2005-2006 sydd yn Atodiad D.

(vii) Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2005-2006 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu.

(viii) Os oes unrhyw newidiadau'n dod i'r amlwg cyn 31 Ionawr 2005, dirprwyo i'r Panel Gweithredol y pwerau am osod lefel is i'r gyllideb neu os oes datganiadau o'r fath neu arbedion yn dod i'r amlwg wedi'r

dyddiad hwn ond cyn 15 Chwefror 2005, dirprwyo'r pŵer hwn i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

<u>22 Tachwedd 2004</u>

[CTTEES04 – Fire Authority 02 (Revised)]